# Beth mae gwerth am arian yn ei olygu i ni

Yn United Welsh rydym wedi ymrwymo i ryddhau potensial y bobl rydym yn gweithio gyda nhw, a gwerth ein buddsoddiad mewn cartrefi a chymunedau.

Rydym yn gweithio i ddarparu ein gwasanaethau'n effeithlon mewn ffordd amserol, syml heb wastraffu adnoddau a gwyddom nad yw Gwerth am Arian yn ymwneud ag effeithlonrwydd yn unig; mae hefyd yn ymwneud ag effeithiolrwydd.

Rydym yn deall yr angen i ddefnyddio ein cyfalaf, ein hasedau a'n hadnoddau'n effeithiol mewn modd masnachol lle rydym yn gadael i arloesi ddisgleirio a sicrhau'r elw mwyaf posibl ar ein buddsoddiadau.

Rydym yn cydnabod, trwy werthfawrogi ein pobl a buddsoddi ynddynt, y byddwn yn cyflawni canlyniadau rhagorol.

**Mae ein Hegwyddorion Arweiniol yn llywodraethu'r ffordd rydym yn gweithio, i wneud ein gorau dros ein cwsmeriaid a'n cymunedau. Mae pob egwyddor yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i sicrhau gwerth am arian.**

### Gwrando ac ymgysylltu

Rydym yn gwerthfawrogi ein cwsmeriaid a'n staff, gan wrando ar eu profiadau i addasu a gwneud penderfyniadau gwell. Rydym yn sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu cynllunio a'u darparu o fudd i'w hanghenion newidiol.



### Fforddiadwyedd

Mae rhent a thaliadau gwasanaeth yn cael eu gosod ar lefelau fforddiadwy. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi a gwasanaethau sy'n cynrychioli gwerth am arian i'n cwsmeriaid.

### Partneriaeth

Rydym yn gweithio'n arloesol gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau cymunedol eraill i wneud y gorau o adnoddau, gan rannu ein profiad er budd pawb.

### Cynhwysiant

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y bobl rydym yn gweithio gyda nhw a'r cymunedau lle rydym yn gweithio. Rydym yn cydnabod bod pawb yn wahanol, ac rydym yn trin pobl â pharch.

### Llywodraethu cryf

Rydym yn cael ein llywodraethu'n dda i gynnal ein cryfder ariannol a'n gwytnwch. Rydym yn rheoli risgiau ac yn lleihau ein hamlygiad i golled, tra'n gwneud y mwyaf o fuddion ein gweithrediadau i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae 43% o'n cartrefi yn EPC-B neu'n uwch, sy'n golygu eu bod yn fwy effeithlon a fforddiadwy.





Mae ein gwasanaeth Connect yn parhau i gefnogi trigolion a'r gymuned leol i gyflawni iechyd a lles da. Lle bo modd, darperir y gweithgareddau am ddim drwy adnoddau lleol a chyllid allanol megis y Loteri Genedlaethol. Roedd 97.2% o'r ymatebwyr i arolwg o gyfranogwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno bod Cyswllt wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lles.

Gofynnwyd i gwsmeriaid am eu barn wrth lunio cynllun ar gyfer ail-wylltio rhai o'n safleoedd. Roeddem am wneud yn siŵr mai'r meysydd a oedd yn cael eu hystyried oedd y rhai cywir.



**Trosiant fesul uned tai cymdeithasol 2023/24**

**£7,060**

| 2022/23 | Cyfartaledd y sector |
|---|---|
| £6,694 | £6,694 |

**Dyledion gwael fesul uned tai cymdeithasol**

**4.31%**

| 2022/23 | Cyfartaledd y sector |
|---|---|
| 4.34% | 4.4% |

**Dyledion gwael fesul uned tai cymdeithasol**

**-£4**

| 2022/23 | Cyfartaledd y sector |
|---|---|
| £37 | £23 |

**Colli eiddo gwag ar rent fesul uned tai cymdeithasol**

**£114**

| 2022/23 | Cyfartaledd y sector |
|---|---|
| £83 | £75 |

**Costau gweithredu gosodiadau fesul uned tai cymdeithasol**

**£4,064**

| 2022/23 | Cyfartaledd y sector |
|---|---|
| £3,549 | £3,733 |

**Costau rheoli fesul uned tai cymdeithasol**

**£1,679**

| 2022/23 | Cyfartaledd y sector |
|---|---|
| £1,566 | £1,312 |

**Costau atgyweirio adweithiol fesul uned tai cymdeithasol**

**£1,513**

| 2022/23 | Cyfartaledd y sector |
|---|---|
| £1,208 | £1,271 |

**Atgyweiriadau mawr a chostau cydrannau fesul uned tai cymdeithasol**

**£1,284**

| 2022/23 | Cyfartaledd y sector |
|---|---|
| £1,236 | £912 |

**Nifer y cartrefi newydd**

**218**

| 2022/23 | Cyfartaledd y sector |
|---|---|
| 137 | 74 |

**Cost gyfartalog wedi'i phwysoli o gyfalaf**

**3.84%**

| 2022/23 | Cyfartaledd y sector |
|---|---|
| 3.83% | 4.63% |

## Cyfartaledd Sector:

Cyfartaledd y sector yw'r mesur a ddefnyddir yn y dangosyddion Gwerth am Arian yn Natganiadau Ariannol 2022 Cymdeithasau Tai Cymru, ac eithrio nifer y cartrefi newydd sy'n seiliedig ar ffigurau 2022/23 ar gyfer Tai Fforddiadwy fel y dangosir ar statscymru.

